**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

11 Awst 2023

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf yn dilyn dadl y Senedd yn y Cyfarfod Llawn ar therapyddion iaith a lleferydd o fewn cyfiawnder ieuenctid, a gynhaliwyd 28 Mehefin 2023. Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddarpariaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, gan gynnwys yn y system gyfiawnder, ond rwy'n ymateb ar ran Gweinidogion Cymru o ystyried bod y mater hwn yn rhyng-gysylltu â fy mhortffolio i a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg.

Gan nad yw cyfiawnder, gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid, wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd, ni fyddai'n briodol i mi ysgrifennu at fyrddau rheoli cyfiawnder ieuenctid mewn awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch eu defnydd o'r cyllid grant a gânt gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid.

Fodd bynnag, fel y dywedais yn y ddadl, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnull uwchgynhadledd yn yr hydref gyda'r holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd a swyddogion o adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru. Y bwriad yw gwahodd Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot a rhanddeiliaid eraill i gyflwyno eu dull gweithredu ar gyfer darpariaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, arddangos / rhannu arfer gorau ac archwilio dulliau gweithredu rhanbarthol. Bydd canlyniadau'r uwchgynhadledd hon yn helpu i lunio dulliau gweithredu yn y dyfodol ar gyfer darparu gwasanaethau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu mewn Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid.

Nodaf eich cais i Lywodraeth Cymru edrych ar ffyrdd eraill o gynyddu'r ddarpariaeth a lleoedd hyfforddi ar gyfer Therapyddion Iaith a Lleferydd. Ar hyn o bryd rydym yn wynebu heriau sefyllfa ariannol na welsom ei thebyg o'r blaen ac mae'n rhaid ystyried pob

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

penderfyniad yn y cyd-destun hwnnw nawr. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod hithau hefyd yn gallu nodi'r cais.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**